OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 1080 (Cy. 73)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *30 Mawrth 2000* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 160(4), 161(2) a (3), 162(4) a 163(7) o Ddeddf Tai 1996(**1**) a freiniwyd ynddo bellach i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Cymhwysedd ar gyfer dyrannu Llety Tai

**2.** Bydd Rheoliadau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 o Reoliadau Dyrannu Tai (Lloegr) 2000(**3**) yn cael effaith yng Nghymru a bydd i'r mynegiadau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hynny yr un ystyr ag a roddir iddynt gan Reoliad 2 o'r Rheoliadau hynny.

### Diddymu

**3.** Diddymir y Rheoliadau canlynol mewn perthynas â Chymru –

(a) Rheoliadau Dyrannu Tai 1996(**4**);

(b) Rheoliadau 2 a 3 o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Diwygio) 1997(**5**);

(c) Rheoliad 2 o Reoliadau Dyrannu a Digartrefedd (Diwygio) (Rhif 2) 1997 (**6**).

(**1**) 1996. p.52.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2000/702.
(**4**) O.S. 1996/2753; diwygiwyd gan O.S. 1997/631 a 1997/2046.
(**5**) O.S. 1997/631.
(**6**) O.S. 1997/2046.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**).

*D. Elis Thomas*
30 Mawrth 2000 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**7**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan VI o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996") yn ymwneud â dyrannu llety tai gan awdurdodau tai lleol.

O dan adran 160 o Ddeddf 1996 caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ragnodi achosion nad yw darpariaethau Rhan VI yn gymwys iddynt.

O dan adran 161 o Ddeddf 1996 gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ragnodi dosbarthiadau o bersonau sy'n ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996 ond sy'n gymwys hefyd i ddyraniad llety tai. O dan yr adran hon caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ragnodi hefyd dosbarthiadau eraill o bersonau sy'n gymwys, neu ddosbarthiadau o bersonau nad ydynt yn gymwys.

O dan adran 162 o Ddeddf 1996 caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ragnodi gwybodaeth sy'n rhaid ei gynnwys mewn cofrestr tai gan awdurdod tai lleol.

O dan adran 163 o Ddeddf 1996 caiff y Cynulliad Cenedlaethol ragnodi yr hyn sy'n rhaid i awdurdod tai lleol ei wneud cyn arddel ei ddisgresiwn i dynnu rhywun oddi ar eu cofrestr tai.

Mae Rheoliadau Dyrannu Tai (Lloegr) 2000 yn rhagnodi achosion at ddibenion adran 160 ac yn rhagnodi dosbarthiadau at ddibenion adran 161. Maent hefyd yn rhagnodi gwybodaeth at ddibenion adran 162 ac yn rhagnodi gofynion at ddibenion adran 163.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod y darpariaethau hynny yn Rheoliadau Dyrannu Tai (Lloegr) 2000 yn cael effaith yng Nghymru, ac mewn perthynas â Chymru yn diddymu Rheoliadau Dyrannu Tai 1996 a Rheoliadau a'i diwygiodd.